

Cofion

- Anfonwn ein cofion at bawb sy'n wael eu hiechyd y dyddiau hyn. Cyflwynwn bob un ohonynt, a'u teuluoedd, i ofal yr Arglwydd gan ddiolch am y sicrwydd ei fod yn gwrando'n gweddïau, ac am addewid O'i ffyddlondeb.
- Cofiw'n hefyd am Elsie May Edwards (Llansannan) sy'n disgwyl ei bod yn symud i gartref gofal Yr Hen Ficerdy, Pandy Tudur y penwythnos hwn. Mae Morfudd Williams (Henllan) yn parhau i gael gofal yn yr Inffirmari ar hyn o bryd, ond mae hithau hefyd ar fin symud, a hynny i gartref gofal Tŷ Cariad yn Abergele. Diolchwn am y gofal y mae'r ddwy wedi ei dderbyn yn yr Inffirmari dros y misoedd diwethaf hyn. Hyderwn y bydd y ddwy yn setlo yn eu cartrefi newydd yn fuan iawn ac y byddant yn profi gofal a grym ein gweddïau drostynt.

beibl.net mewn print bras

Erbyn Tachwedd 25ain eleni, bydd posib cael beibl.net mewn print bras. Pris y Beibl hwn fydd £24.99, ond gellir cael gostyngiad am bob archeb fydd wedi dod i law cyn hynny. Felly, os am archebu copi **am £20 yr un**, gadewch i Mair wybod **erbyn Tachwedd 21ain**, os gwelwch yn dda. Maint y llyfr yw 165 x 232 x 64 mm (sydd tua'r un maint â Caneuon Ffydd – argraffiad organ). Os ydych eisoes wedi prynu yr un llai o faint i'w ddefnyddio yn y pulpud neu'r sêd fawr, gadewch i Mair wybod ac fe allwn wneud defnydd ohono yng ngweithgarwch yr Ofalaeth, fel y medrwch chithau gael copi brasach ar gyfer defnydd cyhoeddus yn y capel.



Ysgrifen mwy o faint?

Rydym eisoes yn argraffu copïau o Llais Bro Aled – sydd â'r ysgrifen naill ai **ddwy** neu **bedair** gwaith yn fwy o ran maint – ar gyfer sawl un o'r darllenwyr. Os ydych chi, neu os gwyddoch am unrhyw un sydd yn ei chael yn anodd darllen Llais Bro Aled yn y maint fel ag y mae, plis gadewch i Mair wybod. Gallwn argraffu fel bo'r galw ac anfon y copïau hefo'r pecynnau Llais Bro Aled sy'n dod i'r eglwysi bob wythnos, neu wneud trefniant arall yn ôl y galw.

I ddod

- **ADNODDAU A SYNIADAU AT Y SUL** yn Ffestri Capel Lôn Swan, Dinbych nos Iau, Tachwedd 3ydd am 7.00.
- **CYNHADLEDD UNDYDD DYDD GWEDDI BYD-EANG Y CHWIORYDD** yng Nghanolfan Ebenezer, Caernarfon dydd Mercher, Tachwedd 9fed o 10.00 – 3.00.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 23^{ain} Hydref 2016

Darlleniad y Dydd

Datguddiad 5:11-14
(BCND tud.274 / BCN tud.251)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Bore da a chroeso cynnes i chi i gyd i wasanaethau'r Fro heddiw. Gweddïwn y bydd Duw yn siarad gyda ni trwy ei Air ac y byddwn yn cael teimlo cryfder cymdeithas Ei bobl yn ein heglwysi. Diolchwn hefyd am y fraint o gael byw mewn gwlad lle mae addoliad agored o Dduw yn cael ei ganiatáu yn hytrach na chael ei erlid.

Dyna beth rhyfeddol ydy addoliad Cristnogol. Pa mor aml yda ni'n cyfyngu addoliad i ganu emynau, boed y rheiny'n rai traddodiadol neu gytganau mwy modern? Allwn ni wir ddweud ein bod ni'n addoli Duw go iawn pan ganwn ni ar ddydd Sul? Mae'n gwestiwn sydd yn werth ei gadw mewn cof, gan mai bwriad yr emynau ydy hwyluso ein haddoliad trwy ein hatgoffa ni o wirioneddau'r Beibl, neu i adlewyrchu ein hemosiynau ni i'r hyn mae Duw yn ei wneud drosom ni.

Mae'n gwestiwn sy'n werth ei gadw mewn cof hefyd wrth i ni edrych ar ddarlleniad y dydd heddiw sy'n dod o Lyfr y Datguddiad. Yma cawn gipolwg ar sut mae addoliad yn gweithio yn y nefoedd – miloedd ar filoedd o angylion mewn tyrfa o amgylch gorsedd Duw yn canu'n uchel. Wedyn mae popeth sydd yn y nefoedd ac ar y ddaear yn canu mewn addoliad. Waw! Triwch ddychmygu'r olygfa! Mae holl greadigaeth Duw wedi canolbwyntio ar ei addoli o – golygfa wahanol iawn i'r rhai welwn ni ar foreau Sul, dwi'n siŵr! Canolbwynt yr angylion ydy addoli Duw ac Oen Duw, sef Iesu Grist. Does dim byd arall yn bwysicach. Does dim byd arall yn cymryd eu sylw. Does dim byd arall yn dod rhyngddyn nhw ac addoli Duw.

Sylwch hefyd ar y gair 'teilwng'. Mae'r Oen yn deilwng o'i addoli. Yr argraff gawn ni ydy ei fod o'n gwbl deg a chyfiawn i addoli yr Oen am yr hyn mae wedi ei wneud, a hynny ar draul popeth arall. Hynny ydy, hyd yn oed heb ei gymharu ag unrhyw beth nac unrhyw un arall, mae Iesu Grist yn haeddu cael ei addoli am farw dros ein pechodau ni.

Mae Paul yn deud yn Rhufeiniaid 12 ein bod ni i roi ein hunain fel aberthau byw fel addoliad ysbrydol i Dduw. Gan gofio hyn, ydy'n bywydau ni'n adlewyrchu'r gosodiadau yn adnod 13 o Ddatguddiad 5? A ydym ni'n rhoi ein mawl i Dduw bob amser? A ydym ni'n ei anrhydeddu yn deilwng? Ac a ydym ni'n sylweddoli gymaint ydy ei ogoniant a'i nerth anhygoel o?

Mae'n rhaid i ni gofio ein bod ni'n rhoi ein hunain fel aberthau byw ac mai dyna ydy ein haddoliad ni. Dydy addoliad ddim yn cael ei gyfyngu i ganu ar ddydd Sul, ond yn hytrach yn rhan o'n bywydau bob dydd.

Darlleniad Wythnos Nesaf

Josua 24: 24-28 (BCND tud.220 / BCN tud.200)

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Gwion

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 23^{ain} ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mercher – 26^{ain} ➤ **“Yr hen a wŷr a'r ifanc a dybia”** – beth mae'r Beibl yn ei ddweud? Croeso i chi i Festri Llansannan am 7.30.
- Iau – 27^{ain} ➤ **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.30.
- Gwener – Sul 28^{ain} – 30^{ain} ➤ **Penwythnos Ieuenctid (Bl. 7-11)** yng Ngholeg y Bala. Os nad ydych eisoes wedi archebu lle, plŷs gwnewch hynny mor fuan â phosib gan anfon blaendâl o £10. Cofiwch bod £20 o ostyngiad i bob unigolyn, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwys Bro Aled.
- Sul nesaf – 30^{ain} ➤ **Oedfa'r Fro ar Daith** am 6.00 – y tro hwn yng Nghefn Berain. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies, a bydd Rhodri yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 23^{ain} ➤ Cynhelir oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30 pryd y bydd Gwasanaeth Diolchgarwch i'r teulu yng nghwmni y Parch. David Owens. Bydd y casgliad yn mynd i helpu'r rhai sydd wedi eu heffeithio gan y storm yn Haiti. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf – 30^{ain} ➤ Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 a bydd Cyfarfod Gweddi yno am 2.00. Bydd yr Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 a Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa yno **am 2.00**. (Sylwch ar y newid amser.)

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 23^{ain} ➤ Bydd Mr Trebor Roberts yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Bydd Mr Dafydd Timothy yn arwain Oedfa Diolchgarwch yn Nantglyn am 2.00. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf – 30^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma – 23^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun i'r daith ym Mheniel am 10.00 a bydd Ysgol Sul yno am 2.00. Ni fydd Ysgol Sul yn Saron.
- Sul nesaf – 30^{ain} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 23^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Henllan am 2.00. Yn ystod yr oedfa, byddwn yn diolch i'r Arglwydd am Ifan Sion, mab bach Lois a Huw Roffe. Hefyd, bydd casgliad arbennig i godi arian i Dibcor, y plentyn yr ydym yn ei noddi trwy World Vision. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.
- Sul nesaf – 30^{ain} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 23^{ain} ➤ Bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Gwener – 28^{ain} ➤ Bydd Clwb Cinio yr ardal yn cyfarfod yng Nghefn Berain am 12.00 (sylwch ar y newid dyddiad). Croeso mawr i bawb!
- Sul nesaf – 30^{ain} ➤ Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Bydd yr Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00, a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â'r oedfa yng Nghefn Berain.

Manylion Cyswilt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07814 660291
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com 📞 01745 582644 📱 07849 591163
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.